

ARLWYAETH A LLETYGARWCH

Mae sleisen o sgil, pinsiad o angerdd a mymryn o natur benderfynol yn gwneud y rysâit perffaith ar gyfer gyrfa mewn arlwyfaeth a lletygarwch!

Mae hwn yn sector sy'n rhoi pwyslais mawr ar wasanaeth ar sail y cwsmer ac mae amrywiaeth o swyddi byrlymus, cyffrous lle mae'r argraff gyntaf yn cyfrif. Arbrofi gyda chynhwysion, perffeithio dulliau coginio o ansawdd dda, màs gynhyrchu neu brofi ansawdd; mae'r rhestr yn ddiddiwedd. Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyrfaedd y gallech chi eu dilyn:

Staff Bariau, Gwestai a Gweini

Perffaith ar gyfer y rheiny sydd wrth eu bodd yn cymdeithasu a sgwrsio. Pa un ai a ydych yn gweithio yn nerbynfa gwesty neu'n rheoli bar, byddwch yn ffynnu i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael y profiad gorau posibl.

Arlwyo

Coginio a pharatoi bwyd ar gyfer unrhyw amgylchedd masnachol sy'n ymfalchïo yn eu bwydlen. Diwydiant sy'n gofyn angerdd ac sy'n gwobrwyo gwaith caled; os allech chi ddiodeff y gwres, gweithiwr yn y gegin!

Cynhyrchu Bwyd

O fesur ac ychwanegu cynhwysion, gwirio am ddiffygion a phwysu samplau i gynnal safonau ansawdd, mae swydd mewn cynhyrchu bwyd yn amrywiol. Gallech weithio yn un o'r bwytaï gorau neu mewn gweithgynhyrchu.

Pecynnu

Os oes gennych ddiddordeb mewn cyflwyno bwyd, gallech weithio mewn pecynnu. Gall y swydd gynnwys pacio cynnyrch bwyd,

ymwybyddiaeth o ansawdd a hylendid a gweithio gyda pheiriannau.

Dosbarthu

O dderbyn deunyddiau bwyd amrwd i gludo'r cynnyrch gorffenedig i siopau ledled y wlad, mae'r maes hwn yn ymdrin â chludo a storio nwyddau.

Caffael a Logisteg

Delfrydol i chi os oes gennych feddwl busnes. Byddwch yn allweddol yn y gadwyn fwyd yn cysylltu â chyflenwyr i brynu nwyddau neu gynllunio'r dosbarthiad. Gallech hefyd ddod yn aelod cymwys proffesiynol o'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi.

Dolenni Defnyddiol

www.thestaffcanteen.com

Gwefan rwydweithio i gogyddion

www.welshculinaryassociation.com

Cymdeithas Goginio Cymru

www.caterlinks.co.uk/ass.htm

Dolenni i gymdeithasau arlwyo

A OEDDECH
CHI'N GWYBOD?

BWYD A DIOD
YW'R SECTOR
GWEITHGYNHYRCHU
MWYAF YN Y DU!

MAE MWY NA
CHWARTER MILIWN
O BOBL YN CAEL
EU CYFLOGI
FEL
COGYDDION
YN Y DU




(ffynhonnell EMSI Q1 2018 Dataset)

Beth y caf i ei astudio, ac ymhle?

	Hyd	CK
Gwasanaethau Lletygarwch Lefel 1	1 flwyddyn	✓
Coginio Proffesiynol Lefel 1	1 flwyddyn	✓
Coginio Proffesiynol Lefel 2	1 flwyddyn	✓
Coginio Proffesiynol Lefel 3	1 flwyddyn	✓

MAE'R COGYDDION
GORAU YN ENNILL DROS
£50,000
Y FLWYDDYN!



£24,449
£12.70/AWR
CYFARTALED
CYFLOGAU
NODWEDDIADOL
(CYMWYS) YN Y
DIWYDIANT HWN

CYFANSWM Y
SWYDDI YN Y
DIWYDIANT HWN

95,520 CYMRU
1,824,461 DU

